**Memorandwm Esboniadol ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei gyflwyno ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru), a gyflwynwyd gennyf fi ar 25 Ionawr 2010, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mrs Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

Medi 2010

Cynnwys

**RHAN 1 - Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig**

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

7. Opsiynau
8. Costau a Manteision
9. Asesu'r Gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

**ATODIAD 1 - Nodiadau Esboniadol**

## RHAN 1 – Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

### 1. Disgrifiad

1.1 Diben y Mesur hwn yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd i'r GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru ("yr awdurdodau perthnasol") weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr.

1.2 Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ac ar gyfer ymgynghori effeithiol gan yr awdurdodau perthnasol â gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr neu i'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae'r pŵer i wneud y Mesur hwn i'w gael yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32). Mae cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar y mater hwn i'w gael ym mater 15.9 ym Maes 15 o Atodlen 5 i'r Ddeddf. Ychwanegwyd mater 15.9 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 (OS 2009/3010) ac mae'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu ynghylch y canlynol:

*Matter 15.9*

*"Supporting the provision of care by carers and promoting the well-being of carers.*

*This matter includes* *<u>(but is not limited to)</u>* *social care services to help carers.*

*In this matter "carers" means individuals who provide or intend to provide a substantial amount of care on a regular basis for—*

*(a) a child with a physical or mental impairment, or*

*(b) an individual aged 18 or over*

*but it does not include individuals who provide or intend to provide care—*

*(a) by virtue of a contract of employment or other contract with any person, or*

*(b) as a volunteer for a body (whether or not incorporated).*

*Under the heading "Interpretation of this field", in the definition of "social care services", after "non-residential care services;" insert "information,".*

2.2 Ystyr y term "gwasanaethau gofal cymdeithasol" ("social care services"), fel y'i diffiniwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (OS 2008/3132) yw:

*"any of the following provided in connection with the well-being of any person: residential or non-residential care services; advice, counselling or advocacy services; financial or any other assistance".*

2.3 Mewnosododd OS 2009/3010 y gair "information" yn y diffinad hwn.

2.4 Ystyr y term "llesiant" ("well-being"), fel y'i diffiniwyd gan OS 2008/3132 yw:

*"Well-being", in relation to individuals, means well-being so far as relating to any of the following-*

*(a) health and emotional well-being;*
*(b)  protection from harm and neglect;*
*(c)education, training and recreation;*
*(d)  the contribution made by them to society;*
*(e)  social and economic well-being;*
*(f) securing their rights;*

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cefndir

3.1 Dangosodd Cyfrifiad 2001 yng Nghymru a Lloegr bod gan Gymru gyfran uwch o ofalwyr nag unrhyw ranbarth yn Lloegr (11.7 y cant, neu 341,000 o ofalwyr) a'r gyfran uchaf o bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor (23.3 y cant). Hefyd, dangosodd y Cyfrifiad mai 9.2 y cant oedd lefel y salwch ac anabledd parhaol yn y boblogaeth 16-74 oed sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru. Mae hynny'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr.

3.2 Ar hyn o bryd, mae gofalwyr di-dâl yn darparu tua 70% o'r gofal yn y gymuned. Serch hynny, y rhagolygon o ran newidiadau demograffig yw y bydd y boblogaeth yn heneiddio ac y bydd cyfraddau geni yn gostwng. Byddai hynny'n golygu bod nifer y bobl allai fod yn ofalwyr, o'i gymharu â'r niferoedd a fydd angen gofal, yn debygol o ostwng dros y tymor canolig. Mae lliniaru ar effeithiau'r newidiadau demograffig hyn yn gofyn am rychwant o fesurau penodol i gefnogi gofalwyr yn eu rôl ofalu ac i'w helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

3.3 Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod gan ofalwyr yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Yn benodol, mae angen i'r wybodaeth i ofalwyr fod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn ffeithiol gywir. Mae'r mathau o wybodaeth y gellid bod ei hangen ar ofalwyr yn debyg o amrywio. Gallai gynnwys y prognosis ar gyfer y person y gofelir amdano a gwybodaeth am gynllunio gofal ar ei gyfer; gwybodaeth am reoli meddyginiaethau; gwybodaeth am godi a chludo'n ddiogel; gwybodaeth am hawliau, gan gynnwys yr hawl am asesiad gofalwyr; gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol neu gymorth GIG a allai fod ar gael; gwybodaeth am y cymorth ariannol a allai fod ar gael; gwybodaeth am ddarpariaethau cyflogaeth, gan gynnwys trefniadau gweithio hyblyg; a gwybodaeth am grwpiau cefnogaeth.

3.4 Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â gofalwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau statudol. Yn ogystal â hyn mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru amryw o bwerau i arolygu a rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a dyroddi canllawiau statudol ar eu cyfer. Er gwaethaf hyn, mae ymgynghoriadau â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr ac eraill wedi tynnu sylw at fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Er y ceir arferion da mewn sawl rhan o Gymru, mae rhai meysydd allweddol nad eir i'r afael â hwy yn gyson, i'r safon y byddem yn ei ddisgwyl, o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel darparu gwybodaeth hygyrch, berthnasol, diweddar a phrydlon, ac ymgynghoriad effeithiol gan y Gwasanaeth Iechyd ac asiantaethau eraill â gofalwyr fel partneriaid.

3. 5 Mae'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol mewn perthynas â gofalwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau statudol. Mae'n cynnwys:

- **Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986**

  Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried gallu'r gofalwr i ddarparu, neu i barhau i ddarparu, gofal wrth iddynt benderfynu pa wasanaethau i'w darparu i'r person anabl.

- **Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995**

  Mae hon yn cynnwys y cyfrifoldebau statudol craidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o allu gofalwr i ddarparu gofal ac i barhau i'w ddarparu, os yw'r gofalwr yn gofyn am hynny, adeg asesu'r person y mae'n gofalu amdano.

- **Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000**

  Mae hon yn estyn darpariaethau Deddf 1995 i alluogi awdurdod lleol i ymgymryd ag asesiad ar wahân o anghenion gofalwr ac i gyflenwi gwasanaethau (neu daliadau uniongyrchol) yn uniongyrchol i ofalwyr ar ôl asesiad.

- **Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004**

  Mae hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu gofalwyr o'u hawl i gael asesiad, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt bwyso a mesur yn eu hasesiadau o ofalwyr a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden. Mae'n darparu hefyd ar gyfer cydweithredu gwell rhwng asiantaethau statudol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr.

- **Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006**

  Daeth hon i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2007. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ystyried ceisiadau oddi wrth bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu am gael gweithio'n hyblyg.

- **Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**

  Bydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau digonol i ddarparu seibiannau byr ar gyfer gofalwyr plant anabl.

3.6 Yn ychwanegol, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rychwant o bwerau i arolygu a rheoleiddio gwasanaethau awdurdodau lleol a dyroddi canllawiau statudol mewn cysylltiad â hwy o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau Cymunedol) 2003. Mae ganddi bwerau hefyd i gyfarwyddo'r GIG o dan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.7 Er gwaethaf y fframwaith presennol hwn o ddeddfwriaeth a chanllawiau, nodwyd drwy ymgynghoriadau â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr ac eraill fod bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a'r rheini'n fylchau nad oes modd mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos nad yw'r fframwaith cyfredol o ran deddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru wedi bod yn ddigon i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch gofalwyr yn cael y flaenoriaeth angenrheidiol, er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r bylchau a'r anghysondebau hyn yn y gwasanaethau a ddarperir. Felly, roedd rhaglen lywodraethu Llywodraeth y Cynulliad, “Cymru'n Un”, yn cynnwys ymrwymiad i baratoi deddfwriaeth newydd ynghylch gofalwyr yn hytrach na dibynnu ar y dulliau atgyfnerthu presennol yn unig, megis mesurau perfformiad ac arolygu, cymelliadau ariannol neu bwerau cyfarwyddo.

**Effaith fwriedig y Mesur**

3.8 Bwriad cyffredinol y Mesur arfaethedig yw gwella bywydau gofalwyr yn y meysydd allweddol canlynol:

- sicrhau bod gan ofalwyr yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Tanlinellodd *Strategaeth Cynhalwyr Cymru - Cynllun Gweithredu (2000)* fod angen darparu i ofalwyr wybodaeth hawdd ei chael, perthnasol a ffeithiol gywir, yn ogystal â chydnabod yr angen am olwg tymor hwy ar anghenion gofalwyr o ran gwybodaeth. Byddai'r math o wybodaeth y gall fod angen amdani ar ofalwyr yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau; gwybodaeth am ddarpariaethau ym maes cyflogaeth, gan gynnwys gweithio oriau hyblyg; gwybodaeth am yr hawl i gael asesiad o anghenion; gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael iddynt; gwybodaeth am gynllunio gofal ar gyfer y person y gofelir amdano ac am reoli ei feddyginiaethau; gwybodaeth am ei drafod a'i godi'n ddiogel; a gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â gofal y person y gofelir amdano.

- sicrhau bod asiantaethau statudol yn ymgynghori'n briodol â gofalwyr fel partneriaid yn y gofal a ddarperir, gan eu cynnwys ar bob lefel o'r gwaith asesu, cyflawni a gwerthuso'r trefniadau gofal.

3.9 Byddai'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i osod dyletswydd ar "awdurdod perthnasol", neu ar ddau neu fwy o “awdurdodau perthnasol”, i baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut y bydd yr awdurdod yn gweithio, neu’r awdurdodau’n cydweithio, i ddarparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol i ofalwyr.

3.10 Y diffiniad presennol o awdurdodau perthnasol yw:

(a) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42);

(b) unrhyw ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno;
(c) unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno;
(d) unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Fodd bynnag, byddai modd i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio neu ychwanegu rhagor o gyrff neu awdurdodau, neu ddisgrifiadau o gorff neu awdurdod, at y cyrff ac awdurdodau sy’n cael eu diffinio yn adran 2(3) ar hyn o bryd. Dylid nodi, er y gall corff neu awdurdod fod yn awdurdod perthnasol, nid yw hynny’n golygu o reidrwydd y rhoddir dyletswydd arno yn awtomatig i baratoi a chyhoeddi strategaeth. Rhaid dynodi awdurdod “perthnasol” yn awdurdod sydd â’r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi’r strategaeth o dan y rheoliadau a wneir o dan adran 2(1). Lle bydd y ddyletswydd hon wedi’i gosod ar awdurdod perthnasol, cyfeirir at hwnnw wedyn fel “awdurdod cyfrifol”.

3.11 Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan adran 2(1), i'w gweithredu.

3.12 Caiff gwybodaeth briodol a chyngor priodol eu diffinio yn y Mesur arfaethedig fel gwybodaeth a chyngor sy'n debyg o fod o ddiddordeb neu o fudd i ofalwyr yn eu rôl ofalu, neu i'r person y gofelir amdano. Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud darpariaethau pellach mewn rheoliadau ynghylch natur gwybodaeth briodol a chyngor priodol, yn ôl y gofyn. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu y dylid darparu'r wybodaeth a'r cyngor hwn yn ddi-dâl.

3.13 Byddai'r Mesur arfaethedig hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol sicrhau eu bod yn ymgynghori â gofalwyr wrth benderfynu pa wasanaethau i'w darparu i ofalwyr neu i'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt. Byddai hefyd yn galluogi ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol sicrhau eu bod yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau mwy cyffredinol ynghylch gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr neu i'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt. Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, yn pennu'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau eu cymryd wrth ymgynghori â gofalwyr, neu'r camau y gallant eu cymryd.

3.14 Bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu i ddarpariaeth fanwl gael ei nodi mewn rheoliadau ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r strategaethau. Bydd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y canlynol:

(a) y gwasanaethau y mae'r ddyletswydd i baratoi strategaeth yn gymwys iddynt;
(b) y materion sydd i'w trin yn y strategaeth;
(c) sut a phryd y mae'r strategaeth i'w chyhoeddi;
(d) adolygu'r strategaeth yn gyson (gan gynnwys pennu cyfnod y mae'n rhaid adolygu neu amnewid y strategaeth ar ei ôl);

(e) yr ymgynghori y mae'n rhaid ymgymryd ag ef cyn paratoi, gweithredu neu adolygu'r strategaeth, neu wrth wneud hynny;
(f) trefniadau i fonitro a gwerthuso'r broses o weithredu'r strategaeth;

3.15 Ar gyfer pob strategaeth y mae mwy nag un awdurdod cyfrifol yn ymwneud â hi, byddai modd i Weinidogion Cymru ddynodi un awdurdod yn awdurdod arweiniol at ddibenion cydlynu a goruchwylio gwaith paratoi a chyhoeddi'r strategaeth, (a hefyd cydlynu a goruchwylio unrhyw adolygiad dilynol ohoni).

3.16 Hefyd, byddai'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod arweiniol neu, pan nad oes awdurdod wedi ei bennu i arwain, ar yr awdurdod cyfrifol, neu’r awdurdodau cyfrifol s’yn gweithredu ar y cyd, i gyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru. Wedyn, byddai gofyn i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod neu’r awdurdodau cyfrifol eu bod yn fodlon â'r strategaeth ddrafft neu, os nad oeddent yn fodlon, rhoi pa gyfarwyddiadau bynnag sydd eu hangen i'r awdurdodau er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â'u gofynion.

**Ffiniau Tiriogaethol**

3.17 Dim ond i Gymru y mae'r Mesur hwn yn gymwys. Mae'r cyfyngiad ynghylch swyddogaethau, ac eithrio o ran Cymru, yn golygu na fyddai'r Mesur hwn yn galluogi'r Cynulliad i roi swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â Chymru i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru nac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

**Cychwyn**

3. 18 Daw'r Mesur hwn i rym yn unol â darpariaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

## 4. Ymgynghori

4.1 Ym mis Gorffennaf 2009, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Cynghori o randdeiliaid allweddol er mwyn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar ddatblygu Mesur drafft ynghylch Gofalwyr. Roedd y grŵp hwnnw yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y GIG, sefydliadau gofalwyr, darparwyr yn y sector preifat a darparwyr yn y sector gwirfoddol, yn ogystal â swyddogion perthnasol o adrannau polisi a chyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad.

4.2 Roedd y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno yn canolbwyntio'n bennaf ar y tasgau canlynol:

- helpu i nodi a mireinio'r prif faterion polisi, gan roi sylwadau ar gynigion polisi wrth iddynt gael eu datblygu; a
- helpu i sicrhau bod y cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y Mesur drafft wedi eu seilio ar ddata ystadegol a thystiolaeth ymchwil gadarn a pherthnasol.

4.3 Cyfarfu'r grŵp dair gwaith rhwng mis Mehefin a mis Medi 2009, a chynhyrchodd adroddiad yn nodi ei gasgliadau a'i argymhellion. Mae'r adroddiad hwn wedi llywio datblygiad y Mesur arfaethedig.

4.4 Dyma'r dull gweithredu a argymhellodd y Grŵp:

a. Mesurau a ddatblygid o dan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch plant hyglwyf fyddai'r ffordd fwyaf priodol i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â'r baich gofalu amhriodol sydd ar ysgwyddau gofalwyr ifanc, ac nid y Mesur arfaethedig ynghylch Gofalwyr. Wrth argymell hynny, roedd y Grŵp yn dal i ystyried y dylai gofalwyr ifanc gael eu cynnwys yn narpariaethau gwybodaeth a darpariaethau ymgynghori'r Mesur arfaethedig ynghylch Gofalwyr;

b. dylai'r Mesur arfaethedig ynghylch Gofalwyr fod wedi ei seilio ar yr egwyddor y dylai sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol gydweithio i lunio un Strategaeth sengl ar y cyd, a fyddai'n cynnwys y ddwy elfen o ddarparu gwybodaeth i ofalwyr ac o ymgynghori â hwy.

c. un strategaeth sengl a ddylai gael ei llunio, a fyddai'n cynnwys y ddwy elfen o ddarparu gwybodaeth ac ymgynghori;

d. dylai'r strategaethau gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau sydd wedi'u contractio i drydydd partïon;

e. dylai'r darpariaethau ar wyneb y Mesur fod yn glir a chryno, gan adael llawer o'r trefniadau manwl i'w pennu mewn rheoliadau a

chanllawiau dilynol. Byddai'r dull hwn o fynd ati yn rhoi'r disgresiwn i Weinidogion Cymru weithredu gam wrth gam;

f. dylid dynodi sefydliadau'r GIG ar wyneb y Mesur fel y sefydliadau arweiniol, a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso'r strategaeth sengl arfaethedig.

4.5 Mae'r dull gweithredu a'r opsiynau a gynigiodd y Grŵp wedi cyfrannu at ddatblygiad y Mesur arfaethedig. Mae'r Grŵp hefyd wedi trafod amrywiaeth o faterion a godwyd yn ystod Cam 1 a Cham 2 wrth i'r Cynulliad graffu ar y Mesur arfaethedig.

**5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru weithredu a phennu manylion y broses o baratoi a chyhoeddi strategaethau i ofalwyr mewn rheoliadau a gorchmynion.

5.2 Ym mhob un o'r achosion isod, mae'r rhesymeg dros ddefnyddio is-ddeddfwriaeth wedi ei seilio ar yr angen i osgoi rhoi manylion amhriodol ar wyneb y Mesur, yr angen am hyblygrwydd i ddiwygio'r mathau o wybodaeth y dylid eu darparu i ofalwyr a'r angen am hyblygrwydd i ddiwygio'r manylion sydd i'w cynnwys yn y strategaeth, yn ôl y gofyn.

5.3 Gan gydnabod natur yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, ac na fyddai'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan y Mesur arfaethedig yn cael eu gwneud o fewn oes y Cynulliad presennol, bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adrannau 2(1), 3(2), 4 a 5(1) ac unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 7A o'r Mesur yn destun y **weithdrefn gadarnhaol**.

**Adran 2 - Dyletswydd i lunio strategaeth**

5.4 Mae adran 2(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol, neu i ddau neu fwy o awdurdodau perthnasol, baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod yn gweithio, neu'r awdurdodau'n cydweithio, i ddarparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol i ofalwyr ac i sicrhau yr ymgynghorir â gofalwyr ynghylch y gwasanaethau a ddarperir.

**Adran 3 - Gwybodaeth briodol a chyngor priodol**

5.5 Mae adran 3(2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi darpariaethau pellach ynghylch beth sy'n wybodaeth briodol a chyngor priodol.

**Adran 4 - Ymgynghori**

5.6 Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, yn pennu'r camau y gall awdurdodau perthnasol eu cymryd, neu sy'n rhaid iddynt eu cymryd, er mwyn ymgynghori â gofalwyr o dan adran 2(1) (b) ac (c).

**Adran 5 - Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau**

5.7 Mae adran 5(1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi darpariaeth bellach o ran paratoi a chyhoeddi strategaeth o dan adran 2. Mae adran 5(2) yn rhestru'r mathau o ddarpariaeth y gellid eu gwneud. Os bydd mwy nag un awdurdod cyfrifol yn ymwneud â strategaeth, mae adran 5(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi un awdurdod yn awdurdod arweiniol at ddibenion cydlynu a goruchwylio gwaith paratoi a

chyhoeddi'r strategaeth, a hefyd cydlynu a goruchwylio unrhyw adolygiad dilynol ohoni.

**Adran 6 - Cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru**

5.8 Mae adran 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaethau ynghylch sut a phryd y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol neu awdurdodau cyfrifol, os oes mwy nag un, gyflwyno'r strategaethau drafft i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo ac wedyn cyhoeddi'r strategaeth.

**Adran 7A – Pŵer i ychwanegu rhagor o awdurdodau perthnasol**

5.9 Mae'r adran hon yn rhoi pŵer, drwy orchymyn, i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o "awdurdodau perthnasol" a nodir yn y diffiniad yn adran 2(3), a hynny trwy ychwanegu rhagor o gyrff neu awdurdodau neu ddisgrifiadau o gorff neu awdurdod.

**Adran 8 – Gorchmynion a rheoliadau**

5.10 Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch gorchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Mesur.

5.11 Mae is-adran (1) yn darparu, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, maent i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae isadran (2) yn darparu y caiff gorchmynion neu reoliadau o'r fath wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chânt gynnwys darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd gorchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Mesur yn destun y weithdrefn negyddol, ac eithrio pan fyddant mewn perthynas â gorchymyn a wneir o dan adran 7A o'r Mesur, neu'r set gyntaf o reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bob un o adrannau 2(1), 3(2), 4 a 5(1).

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau ar gyfer y Mesur hwn, ac mae'n dilyn yn Rhan 2.

6.2 Y dyddiad cynharaf y gellid cychwyn gweithredu newidiadau a fyddai'n deillio o gymeradwyo'r Mesur arfaethedig ac unrhyw reoliadau dilynol fyddai haf/hydref 2011.

## RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 7. Opsiynau

7.1 Dyma'r opsiynau sydd ar gael:

**Opsiwn 1**: Gwneud dim
**Opsiwn 2**: Cyflwyno newidiadau ar sail y ddeddfwriaeth bresennol
**Opsiwn 3**: Cyflwyno Mesur Cynulliad

### Opsiwn 1 - Gwneud dim

7.2 Byddai gwneud dim yn cynnal sefyllfa lle nad yw gofalwyr yn cael eu cynnwys yn effeithiol fel partneriaid gydag awdurdodau ledled Cymru gyfan i ddarparu gofal, ac ni fyddai'r wybodaeth a ddarperir i ofalwyr yn gwella yn sgil hynny. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn adrodd bod asesiadau gofalwyr, a gwasanaethau i ofalwyr, yn amrywio'n fawr, ac yn anghyson iawn, ledled Cymru. Mae sefydliadau gofalwyr, a gofalwyr eu hunain, hefyd yn adrodd bod angen ymdrech o'r newydd gan awdurdodau, yn arbennig y GIG yng Nghymru i:

- nodi gofalwyr;
- ymgynghori'n well â gofalwyr;
- sicrhau bod gan ofalwyr yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn i'w cefnogi yn eu rôl ofalu;
- sicrhau bod cymorth ymarferol ac emosiynol amserol a phriodol, a chymorth arall, yn cael eu cynnig i ofalwyr i'w cynnal yn eu rôl ofalu

### Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau ar sail y ddeddfwriaeth bresennol

7.3 Mae'r opsiwn hwn yn dibynnu ar ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol presennol ar y cyd â threfniadau cydweithio â llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru, a gweithio mewn partneriaeth â hwy. Mae Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyroddi canllawiau cyffredinol i awdurdodau lleol ar arfer eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys materion sy'n gysylltiedig â gofalwyr. Amlinellir manylion y fframwaith deddfwriaethol presennol mewn perthynas â gofalwyr yn adran 3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

7.4 Mae'r ddeddfwriaeth yn gyfyngedig gan ei bod, yn gyffredinol, yn gosod rhai dyletswyddau a chyfrifoldebau ar rai o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn unig, ac nid ar bob gwasanaeth a gynigir gan awdurdodau lleol. Hefyd, nid yw Deddfau 1986, 1995 a 2000 a grybwyllir uchod yn cwmpasu'r GIG yng Nghymru. Mae Deddf 2004 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ofyn i awdurdodau eraill, gan gynnwys y GIG yng Nghymru, am gymorth wrth gynllunio'r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr a'i gwneud

hi'n ofynnol iddynt roi ystyriaeth ddyledus i gais o'r fath, ond nid yw'n gosod unrhyw ddyletswydd statudol ar GIG Cymru i gydweithio â gofalwyr, i ddarparu unrhyw wasanaeth iddynt nac i ymgynghori â hwy mewn unrhyw ffordd arall.

7.5 Er y gellid cynnig rhai gwelliannau, gan hynny, ar sail y fframwaith cyfreithiol presennol, byddai'r rhain, yn bennaf, yn gyfyngedig i ddyroddi canllawiau a/neu gyfarwyddiadau pellach. Byddai gan awdurdodau lleol gryn ddisgresiwn o hyd mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, ac yn arbennig mewn perthynas â meysydd gwasanaeth eraill, a byddai'r disgresiwn eang hwn hefyd yn gymwys i'r GIG yng Nghymru. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn sicrhau'r gwelliannau y dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid gofalwyr eu cyflawni o ran cysondeb a thegwch ledled Cymru.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Mesur Cynulliad**

7.6 Yr opsiwn hwn fyddai fwyaf effeithiol i fodloni'r amcan polisi o sicrhau bod awdurdodau lleol, y GIG yng Nghymru a chyrff ac awdurdodau eraill yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd cyson a theg ledled Cymru gyfan:

- ymgynghori â gofalwyr mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chymorth, ar gyfer eu hanghenion eu hunain, ac ar gyfer anghenion y person y gofelir amdano;
- darparu gwybodaeth briodol, amserol a diweddar i ofalwyr i'w helpu yn eu rôl ofalu.

7.7 Fel yr amlinellir yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, bydd y Mesur arfaethedig, naill ai yn uniongyrchol a/neu drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn:

- gosod dyletswydd ar yr awdurdodau perthnasol i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i ddarparu'r wybodaeth briodol a'r cyngor priodol i ofalwyr a sicrhau eu bod yn ymgynghori â gofalwyr ar ba wasanaethau a fydd yn cael eu darparu i ofalwr neu'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt;
- gosod dyletswydd ar yr awdurdodau perthnasol sy'n gyfrifol am y strategaeth i weithredu'r strategaeth;
- gosod dyletswydd ar yr awdurdodau perthnasol i ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor i ofalwyr yn unol â'r strategaeth yn ddi-dâl;
- ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod cyfrifol sicrhau bod copi o'r strategaeth ar gael i'w archwilio ar bob awr resymol ac yn ddi-dâl;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â phob strategaeth, i ddynodi un o sefydliadau'r GIG yn awdurdod arweiniol;
- gosod dyletswydd ar yr awdurdod arweiniol i gyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru, a fydd yn gorfod bod

yn fodlon bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â'r gofynion a wneir gan y Mesur arfaethedig neu oddi tano.

7.8 Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn darparu mwy o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach o ran paratoi a chyhoeddi strategaeth, er enghraifft drwy ddiffinio i ba wasanaethau y mae'r ddyletswydd i baratoi strategaeth yn gymwys; y materion a fydd yn cael eu trafod yn y strategaeth, a'r trefniadau i fonitro a gwerthuso'r modd y gweithredir y strategaeth.

7.9 Mae'r cynnig am Fesur i ddarparu gwybodaeth a chyngor i ofalwyr, ac i ymgynghori yn fwy effeithiol â gofalwyr, wedi cael cryn gefnogaeth gan sefydliadau rhanddeiliaid, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Mae cynnwys y Mesur arfaethedig yn adlewyrchu casgliadau ac argymhellion Grŵp Cynghori'r rhanddeiliaid.

## 8. Costau a Manteision

### Opsiwn 1: Gwneud dim

### Manteision

8.1 Ni ddaw unrhyw fantais o wneud dim. Bydd yr amrywiaeth o ran yr wybodaeth a ddarperir i ofalwyr a'r ffordd y mae awdurdodau yn ymgynghori â gofalwyr yn parhau.

### Costau

8.2 Ni fyddai’r awdurdodau yn ysgwyddo unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol nac unrhyw gostau gweithredu ychwanegol.

### Opsiwn 2: cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl ar sail y ddeddfwriaeth bresennol

### Manteision

8.3 Ni fyddai newidiadau pellach i'r canllawiau statudol presennol yn gymwys i bob un o swyddogaethau'r awdurdodau lleol nac yn fwy cyffredinol i'r GIG yng Nghymru. Efallai y gellid sicrhau rhai gwelliannau, ond rhai mân yn unig.

### Costau

8.4 Dim ond pe byddai beichiau newydd yn cael eu gosod ar wasanaethau cymdeithasol, neu pe byddai’r gwasanaeth a ddarperir yn cael ei ymestyn, y byddai’r awdurdodau yn ysgwyddo costau gweinyddu a chostau gweithredu ychwanegol. Gan na fyddai parhau â'r opsiwn hwn yn ychwanegu unrhyw feichiau newydd, a gan mai sicrhau mân welliannau a fyddai yn unig, mae'n debygol mai bach iawn fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

### Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

### Manteision

8.5 Yr opsiwn hwn fyddai fwyaf effeithiol i fodloni'r amcan polisi o sicrhau bod awdurdodau lleol, y GIG yng Nghymru a chyrff ac awdurdodau eraill, wrth gynnal eu swyddogaethau, yn:

- ymgynghori â gofalwyr mewn perthynas â darparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer eu hanghenion eu hunain, ac ar gyfer anghenion y person y gofelir amdano;
- darparu gwybodaeth briodol, amserol a diweddar i ofalwyr i'w helpu yn eu rôl ofalu.

### Costau

8.6 Byddai awdurdodau lleol a'r GIG yng Nghymru yn ysgwyddo costau gweithredu a chostau gweinyddu mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig.

8.7 Mae gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru drefniadau yn eu lle eisoes i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr ac i ymgynghori â hwy. Efallai bydd angen i'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli mewn rhai meysydd gael eu datblygu a'u hatgyfnerthu ymhellach. O ran swyddogaethau eraill awdurdodau lleol, fel tai ac addysg, efallai bod gan rai awdurdodau drefniadau cyffelyb yn eu lle, ond bydd rhaid datblygu ac atgyfnerthu y rhain ymhellach neu, mewn rhai achosion, bydd rhaid eu datblygu a'u rhoi yn eu lle o'r newydd.

8.8 O ran y GIG yng Nghymru, nid oes gan lawer o'i feysydd gwasanaeth unrhyw drefniadau i ddarparu gwybodaeth ac i ymgynghori â gofalwyr, neu mae'r trefniadau sydd yn eu lle yn rhai nad ydynt wedi'u datblygu lawer. Bydd llawer o feysydd gwasanaeth y GIG yn cychwyn o'r cychwyn. Y cam cyntaf, o bosibl, i rai o sefydliadau'r GIG fydd dechrau trafod gyda gofalwyr a'u cynrychiolwyr i gadarnhau beth yw eu blaenoriaethau o ran yr wybodaeth a ddarperir a'r lefel a'r math o ymgynghori y mae gofalwyr yn dymuno ei chael.

8.9 Mae’r strategaethau yn debygol o gael eu gweithredu'n raddol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, fel cam cychwynnol, bwriedir canolbwyntio, mewn ymgynghoriad â gofalwyr a'u cynrychiolwyr, ar ddatblygu’r strategaethau eu hunain. Ar ôl i Weinidogion Cymru gadarnhau eu bod yn fodlon bod strategaeth yn cydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan y Mesur arfaethedig neu oddi tano, y cam nesaf fydd paratoi ar gyfer gweithredu'r strategaethau; o ddatblygu a dosbarthu'r wybodaeth briodol; gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i ganllawiau a gweithdrefnau pob awdurdod; i sicrhau bod awdurdodau yn cynnal unrhyw hyfforddiant sydd ei angen ar staff ar eu rôl hwy o ran gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Mae’n debygol y bydd y cam hwn o'r gwaith paratoi yn rhedeg o flwyddyn 1 i flwyddyn 2. Bydd y gwaith yn cychwyn ar lawr gwlad yn ystod ail hanner blwyddyn 2, ac yn cael ei weithredu'n llawn o flwyddyn 3.

8.10 Byddai gweithredu'n raddol fel hyn yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi mewn strategaethau i flaenoriaethau gofalwyr o ran yr wybodaeth i ofalwyr, ac ymgynghori â hwy, a sicrhau bod strategaethau yn cael eu cyflawni mewn modd cynaliadwy. Yn benodol, mae hyfforddi aelodau staff awdurdod ar eu rôl o ran gweithredu strategaeth yn llwyddiannus yn hanfodol.

8.11 Drwy weithredu'n raddol fel hyn, fel a nodir ym mharagraffau 7.13 a 7.14, gan ystyried pa mor amrywiol yw sefyllfa bresennol pob awdurdod, rydym yn amcangyfrif y bydd y costau gweinyddu a'r costau gweithredu ledled Cymru oddeutu £0.9 miliwn ym mlwyddyn 1, £1.7 miliwn ym mlwyddyn 2, a chodi i £3.2 miliwn ym mlwyddyn 3. Bwriedir hefyd y bydd pob Strategaeth yn ceisio rhoi sylw i’r amgylchiadau penodol sy’n effeithio ar ofalwyr ifanc. Amcangyfrifir y byddai’r costau gweithredu ychwanegol ar gyfer gwneud hynny fel a ganlyn: £80,000 ym mlwyddyn 1; £150,000 ym mlwyddyn 2 a £200,000 ym mlwyddyn 3.

8.12 Gweithrediaeth yr Alban yw'r unig enghraifft arall o weinyddiaeth yn y DU sy'n defnyddio dull cyffelyb sy’n galluogi awdurdodau i lunio strategaethau ar gyfer gofalwyr. Yn yr Alban, bu'r trefniadau hyn yn eu lle er 2006, ac mae Gweithrediaeth yr Alban wedi darparu oddeutu £9 miliwn o gyllid ar gyfer y tair blynedd yn cychwyn 2008-09 (£1 miliwn ym mlwyddyn 1; £3 miliwn ym mlwyddyn 2 a £5 miliwn ym mlwyddyn 3). Mae poblogaeth Cymru oddeutu 60% o boblogaeth Yr Alban.

8.13 At ddibenion egluro yn unig, yng Nghymru ceir 22 awdurdod lleol a 7 Bwrdd Iechyd Lleol. O rannu amcangyfrif y costau gweithredu (fel a nodir yn adran 8.11 uchod) yn gyfartal rhwng y 29 awdurdod hwn, ceir ffigur oddeutu £3,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 1; £63,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 2 a £117,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 3.

8.14 Er mai'r sawl a fydd yn drafftio pob Strategaeth a fydd yn gyfrifol am benderfynu, mewn ymgynghoriad â gofalwyr, beth ddylai gael blaenoriaeth, rydym yn rhagweld y gallai'r rhain, o bosibl, gynnwys:

- sefydlu swyddi cyswllt gofalwyr (newydd) ym mhob BILl;
- ymestyn rôl cydlynwyr gofalwyr presennol gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol neu benodi cydlynwyr newydd i fabwysiadu meysydd gwasanaeth eraill awdurdodau lleol, er enghraifft, tai;
- darparu cyllid, lle bo angen, i ddatblygu a chynnal seilwaith lleol ar gyfer gofalwyr/gofalwyr ifanc neu atgyfnerthu unrhyw seilwaith ar gyfer gofalwyr/gofalwyr ifanc sydd eisoes yn bodoli er mwyn i awdurdodau ymgynghori’n effeithiol â hwy;
- talu costau rhesymol ymgynghori â gofalwyr/gofalwyr ifanc a sefydliadau gofalwyr;
- sefydlu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori lleol;
- ariannu cynnydd yng ngallu sefydliadau gofalwyr/gofalwyr ifanc i helpu a chefnogi gofalwyr/gofalwyr ifanc yn y gymuned
- ariannu 'partneriaethau' hyfforddi gofalwyr a rhoi hyfforddiant i ofalwyr eu hunain
- datblygu deunyddiau gwybodaeth a chyngor newydd i ofalwyr/gofalwyr ifanc mewn amrywiaeth o ffurfiau ac ieithoedd
- hyfforddi staff pob awdurdod lleol ar eu rôl i gyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus.

## 9. Asesu'r Gystadleuaeth

9.1 Ni fydd effaith unrhyw drefniadau newydd yn cael dylanwad anfanteisiol ar gystadleuaeth yn achos busnesau, elusennau, llywodraeth leol a/neu'r sector gwirfoddol.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

10.1 Bydd y trefniadau monitro ac adolygu yn cael eu nodi ym manylion y rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud o dan y Mesur arfaethedig (gweler adran 5(2)(f) o'r Mesur arfaethedig).

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Ionawr 2010.

2. Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi'r Nodiadau hyn er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur drafft nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Os yw'n ymddangos, felly, nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu wneud sylw ar adran neu ran o adran, ni roddir esboniad ac ni wneir sylw arni.

4. O dan y Mesur arfaethedig, bydd pŵer gan Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i "awdurdodau perthnasol" (fel y'u diffinnir yn y Mesur) gyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol i ofalwyr, a hefyd sut y byddant yn cydweithio i sicrhau y bydd ymgynghori â phob gofalwr cyn i'r awdurdodau benderfynu pa wasanaethau sydd i'w darparu i'r gofalwr neu'r person y gofelir amdano.

Yn ychwanegol, rhaid i'r strategaeth nodi sut y bydd yr awdurdodau perthnasol yn sicrhau, cyn iddynt wneud penderfyniadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt, y byddant yn ymgynghori â'r gofalwyr am y penderfyniadau hynny.

**Adran 1 – Gofalwyr**

Mae'r adran hon yn diffinio gofalwr a pherson y gofelir amdano.

Mae is-adran (1) yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu) cryn dipyn o ofal yn rheolaidd i blentyn anabl neu i unigolyn 18 oed neu drosodd. At y dibenion hyn, cymerir bod ystyr "plentyn anabl" yr un fath ag ystyr "*disabled child*" yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989.

Mae is-adran (2) yn eithrio o ddiffiniad gofalwr y rhai sy'n cael eu cyflogi fel gofalwyr, neu sy'n cyflawni eu dyletswyddau fel gofalwyr yn ffurfiol drwy gyfrwng cytundeb ffurfiol gydag unrhyw berson arall. Mae'r rhai sy'n ofalwyr gwirfoddol i unrhyw gorff, er enghraifft elusen, wedi eu heithrio hefyd o'r diffiniad.

Mae is-adran (3) yn diffinio'r person y gofelir amdano fel person y mae gofal yn cael ei ddarparu iddo gan ofalwr, neu y bwriedir i'r gofal hwnnw gael ei roi i'r person hwnnw gan ofalwr.

**Adran 2 – Dyletswydd i lunio strategaeth**

Mae'r adran hon yn darparu bod dyletswydd yn cael ei rhoi ar awdurdodau perthnasol i lunio strategaeth mewn perthynas â gofalwyr.

Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfrwng rheoliadau, ei gwneud yn ofynnol i ddau neu fwy o awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth a chyngor sy'n briodol i ofalwyr, a hefyd sut y byddant yn cydweithio i sicrhau y bydd ymgynghori â gofalwyr cyn iddynt benderfynu pa wasanaethau sydd i'w darparu i ofalwr neu'r person y gofelir amdano.

Yn ychwanegol, rhaid i'r strategaeth nodi sut y bydd yr awdurdodau perthnasol yn sicrhau, cyn iddynt wneud cyfarwyddiadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt, y byddant yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau o'r fath.

Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i bob awdurdod perthnasol y mae dyletswydd arno o dan is-adran (1) i baratoi a chyhoeddi strategaeth weithredu'r strategaeth hefyd.

Mae is-adran (3) yn diffinio awdurdodau perthnasol fel a ganlyn—

(c) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

(d) unrhyw ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno;

(e) unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno;

(f) unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Mae is-adran (4) yn egluro nad yw o bwys a yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod perthnasol neu gan berson arall (er enghraifft, o dan drefniadau contractio allan).

Mae is-adran (5) yn diffinio awdurdod cyfrifol.

**Adran 3 – Yr wybodaeth briodol a'r cyngor priodol**

Mae is-adran (1) yn diffinio'r term “gwybodaeth briodol a chyngor priodol” sydd wedi ei gynnwys yn adran 2(1)(a) o'r Mesur hwn.

Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu ymhellach yr hyn a olygir wrth “gwybodaeth briodol a chyngor priodol” at ddibenion adran 2(1)(a) o'r Mesur hwn.

**Adran 4 – Ymgynghori**

Mae adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'n fanylach y camau y mae'n rhaid neu y caniateir i awdurdodau perthnasol eu cymryd i gyflawni eu dyletswydd i ymgynghori â gofalwyr sydd wedi ei chynnwys yn adran 2(1) (b) ac (c) o'r Mesur hwn.

**Adran 5 – Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau**

Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau pellach ynghylch sut mae'r awdurdodau perthnasol i baratoi a chyhoeddi eu strategaethau o dan adran 2 o'r Mesur.

Mae is-adran (2) yn rhestru rhai enghreifftiau o'r darpariaethau pellach y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) ynglŷn â pharatoi a chyhoeddi strategaethau.

Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi corff GIG yn awdurdod arweiniol ar gyfer pob strategaeth, ac y byddai dynodi awdurdod arweiniol yn ddynodi at ddibenion cydlynu a goruchwylio gwaith paratoi a chyhoeddi'r strategaeth (a chydlynu a goruchwylio unrhyw adolygiad dilynol ohoni).

Mae is-adran (4) yn diffinio corff GIG.

**Adran 6 – Cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion ynghylch sut mae'r awdurdodau perthnasol i gyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (1) yn darparu dyletswydd i gyflwyno'r strategaeth ar ffurf drafft i Weinidogion Cymru.

Mae is-adran (2) yn rhoi manylion ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud ar ôl iddynt gael y strategaeth ddrafft. Rhaid iddynt naill ai hysbysu'r awdurdodau cyfrifol eu bod wedi eu bodloni bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Mesur hwn, neu os nad ydynt wedi eu bodloni, yna bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi unrhyw

gyfarwyddiadau y gwelant yn dda i'r awdurdodau cyfrifol fel bod modd wedyn i'r awdurdodau cyfrifol sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Mesur hwn.

Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i awdurdodau cyfrifol beidio â chyhoeddi strategaeth ar ei ffurf derfynol, hyd nes y byddant wedi anfon strategaeth ddrafft at Weinidogion Cymru, a bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, neu os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael strategaeth ddrafft, wedi dyroddi cyfarwyddiadau sy'n datgan beth y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol ei wneud er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, bod yr awdurdodau cyfrifol wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny.

Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'n fanylach sut a phryd y mae'n rhaid cydymffurfio â darpariaethau adran 6 hon.

**Adran 8 – Gorchmynion a rheoliadau**

Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ynghylch is-ddeddfwriaeth (gorchmynion a rheoliadau) a wneir o dan y Mesur hwn.

Mae is-adran (1) yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, eu bod i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau Deddf Offerynnau Statudol 1946 i'w cymhwyso i'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny, gan gynnwys gofynion ynghylch eu cyhoeddi.

Mae is-adran (2) yn darparu y caiff gorchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Mesur hwn wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chânt gynnwys darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau darfodol, darpariaeth trosiannol neu ddarpariaethau arbed.

**Adran 9 – Cychwyn**

Daw'r Mesur i rym drwy i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn Cychwyn.